| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | Mehefin 19, 2025 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Adran Gwasanaethau Corfforaethol |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol |
| **AWDUR** | Ian Jones – Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Llio Elenid Owen |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet dros Adran Gwasanaethau Corfforaethol, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth 2024-25. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

**Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

Mae Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar chwe phrosiect o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor 2023 - 2028, sef:

1. Cadw'r Budd yn Lleol
2. Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd
3. Cynllunio'r Gweithlu
4. Sicrhau Tegwch i Bawb
5. Merched Mewn Arweinyddiaeth
6. Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch

Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2024-25, ac mae Atodiad 1 yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y chwe blaenoriaeth

Sylwer bod llithriad yng nghynnydd prosiect ‘Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch’, hynny oherwydd gwaith datblygol pellach sydd angen ei wneud gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yng nghyswllt datblygu’r system iechyd a diogelwch. Rydym yn ffyddiog fod y prosiect hwn ar y trywydd cywir a bydd y gwaith yn cael ei gyflawni’n llawn.

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Mae Atodiad 2 yn cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaethau’r Adran. Mae’n cynnwys data am y cyfnod diweddaraf, cyd-destun a sylwadau yn esbonio perfformiad yr holl feysydd yn ystod 2024-25.

Mae gan Adran Gwasanaethau Corfforaethol nifer o wahanol wasanaethau a meysydd cyfrifoldeb amrywiol. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

**Adroddiadau Archwilwyr Allanol (os yn berthnasol)**

Yn sgil pryder a fynegwyd o ran perfformiad y Cyngor o ran y gyfradd ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, comisiynwyd Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth i gynnal archwiliad i drefniadau’r Cyngor. Roedd hyn yn weithred wirfoddol ar ran y Cyngor er mwyn darganfod os oedd diffygion yn ei drefniadau a bod y rhain yn arwain at oedi neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda gofynion y Ddeddf. Cynhaliwyd yr archwiliad mis Ebrill, 2025 a chyhoeddwyd yr adroddiad drafft ddechrau mis Mai, 2025.

Barn yr Archwiliwr yw bod gan y Cyngor drefniadau ‘rhesymol’ o ran ymateb i ofynion y Ddeddf. Yn sgil derbyn yr adroddiad, bydd rhaglen waith manwl yn cael ei llunio er mwyn mynd i’r afael a’r argymhellion cyn gynted ag sy’n ymarferol bosib. Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eisoes wedi derbyn copi o’r adroddiad ac wedi ei drafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai, 2025.

## 3. Ymgynghori

Mae’r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol, gyda’r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Adran, Pennaeth Cynorthwyol, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol
**Atodiad 3:** Fersiwn hygyrch – sylwadau mesuryddion perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol